

## PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Mawrth, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.M. Ball, I.R. Buckley, S. Campbell, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy and S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle, D. Dutch, V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr o Weithgor/Panel Tenantiaid), Cynghorwyr C.P. Franks, H.C. Hamilton a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

### 806 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 807 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.G.J. Morgan.

### 808 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir.

### 809 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 810 CYFLWYNIAD – DIWEDDARIAD GAN YR UNED AMDDIFFYN SIFIL (UAS) –

Rhodddwyd y cyflwyniad i'r pwyllgor gan y Prif Swyddog Amddiffyn Sifil, a amlinellodd y pwyntiau allweddol am yr uned, ei staff, ei strwythur a'i gweithgareddau.

Roedd gan Gyngor Bro Morgannwg, o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, gyfrifoldeb statudol fel ymatebwr Categori 1 gydag asiantaethau eraill, megis y gwasanaethau

brys, byrddau iechyd, a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), i sicrhau bod y saith dyletswydd o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil yn cael eu cyflawni. Cynhaliwyd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth De Cymru gan Gyngor Bro Morgannwg o fewn yr Uned Amddiffyn Sifil a hwn oedd y llwyfan ar gyfer galluogi cydnerthedd amlasiantaethol ar draws ardal De Cymru. Roedd yr Uned Amddiffyn Sifil wedi'i lleoli o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai ac yn yr Alpau yng Ngwenfô, a helpodd y cyngor i gyflawni dyletswyddau statudol o'r fath.

Roedd yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn arbennig o brysur a heriol i'r Uned Amddiffyn Sifil, oherwydd y canlynol: COVID-19 (gan gynnwys y gwaith o amgylch yr ymchwiliad COVID-19); yr angen am ymateb dyngarol, megis gyda'r gwrthdaro yn Wcráin a ffoaduriaid (h.y. roedd yr Uned Amddiffyn Sifil yn rhan o'r broses gychwynnol o sefydlu canolfannau croeso a chanolfannau cyrraedd ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin); a'r angen i hybu diogelwch adeiladau ar gyfer adeiladau'r cyngor drwy'r Grŵp Diogelwch Adeiladau a'r effaith o ran helpu i weithredu 'Deddf Martyn', sydd ar fin cael ei gweithredu, ynghylch mwy o ddiogelwch amddiffynnol mewn digwyddiadau ac adeiladau/lleoliadau gorlawn (yn dilyn y gwersi a ddysgwyd o'r ymosodiad bom ar Arena Manceinion).

Roedd yr Uned Amddiffyn Sifil hefyd wedi cynnal Adolygiad Fframwaith Cynllun Argyfwng, ac amlinellwyd yr amrywiol ddigwyddiadau yr oedd yr Uned Amddiffyn Sifil wedi delio â nhw yn ystod y flwyddyn, yn amrywio o'r ymatebion COVID-19 a dyngarol parhaus, gweithgarwch Teithwyr yn y Fro, stormydd amrywiol, a thywydd poeth eithafol hyd at weithredu diwydiannol a ffliw adar. Bu'r Uned Amddiffyn Sifil hefyd yn rhyngweithio â nifer o grwpiau ac ymchwiliadau, yn amrywio o'r Ymchwiliad COVID-19 i'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, codwyd y cwestiynau a sylwadau dilynol gan y pwyllgor.

O ran ymholiad y Cynghorydd Perkes ynghylch faint o ddigwyddiadau y rhoddodd yr Uned Amddiffyn Sifil gyngor arnynt ym Mro Morgannwg mewn blwyddyn, esboniwyd na ellid rhoi union ffigurau ar hyn o bryd, er bod yr Uned Amddiffyn Sifil wedi cefnogi nifer o ddigwyddiadau mawr a digwyddiadau eraill ym Mro Morgannwg, h.y. Sioe'r Fro, 'Cadstock', ac ati, gyda digwyddiadau llai yn cael eu cynnal ym Mhenarth a'r Bont-faen. Byddai ffigyrau ar hyn yn cael eu rhannu gyda'r cynghorydd a'r pwyllgor maes o law.

O ran ymholiad y Cynghorydd Campbell ynghylch cefnogaeth yr Uned Amddiffyn Sifil i ffoaduriaid o Wcráin, esboniwyd bod yr Uned Amddiffyn Sifil wedi bod yn rhan o sefydlu'r canolfannau croeso cenedlaethol a gyflwynwyd o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin, gan gynnwys Llangrannog a'r 'hwb' cyraeddiadau ym Maes Awyr Cymru Caerdydd. Roedd timau tai a digartrefedd y cyngor wedi bod yn ymwneud â rhedeg y cynlluniau hyn ers hynny.

O ran ymholiad y Cynghorydd Buckley ynghylch Bwrdd CONTEST Caerdydd a'r Fro a'i rôl gwrthderfysgaeth, esboniwyd bod pedair thema neu 'faes' allweddol i rôl CONTEST, megis 'Atal, Dilyn, Diogelu, a Pharatoi'. Yn benodol, roedd y thema 'Atal' yn cyd-fynd â'r gwaith a wnaed gyda Phartneriaeth Bro Ddiogelach a'r Grwpiau Parodrwydd am Ddiogelwch Amddiffynnol. Fe wnaeth Bwrdd CONTEST Caerdydd

a'r Fro hefyd fwydo i mewn i'r cynllun cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan fel rhan o strategaeth Cymru gyfan. Ynglŷn â'i gwestiwn pellach ynghylch preswylwyr yn gallu cael mynediad at fagiau tywod mewn modd amserol a chyn gynted ag yr oedd Rhybudd Tywydd Garw neu rywbeth tebyg wedi'i gyhoeddi, esboniwyd bod gan y cyngor fynediad i systemau amrywiol i'w helpu i asesu'r risgiau a berir gan dywydd garw i'r ffyrdd ac ati yn y Fro, ar y cyd â'r Swyddfa Dywydd. Byddai'r rhain wedyn yn llywio'r penderfyniad i agor darpariaeth bagiau tywod y cyngor cyn i'r tywydd garw ddechrau.

Cododd y Cynghorydd Carroll ymholiad ar Brotocol y Bagiau Tywod Cymunedol a'r heriau i rai trigolion gael gafael ar fagiau tywod a gyflenwir gan y cyngor, yn enwedig yn ystod tywydd garw, a gofynnodd a oedd proses ffurfiol yn nodi ardaloedd o risg uchel yn y Fro fel y gellid rhoi mesurau ar waith i wneud y bagiau tywod yn fwy hygyrch i'r cymunedau yr effeithir arnynt. Eglurwyd bod gan y cyngor asesiad risg yn ei le o ble roedd yn debygol o ddioddef llifogydd yn y Fro; fodd bynnag, oherwydd diffyg afonydd mawr neu brif afonydd yn y Fro, roedd 'fflachlifau' yn dueddol o fod yn anos i'w nodi a'u rhagweld. Roedd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai wedi gofyn i gynghorau tref a chymuned lleol a oeddent am storio bagiau tywod, a byddai hyn yn cael ei gyfeirio'n ôl ato eto. Fodd bynnag, byddai rheolaeth wirioneddol y bagiau tywod yn disgyn wedyn ar y cynghorau tref a chymuned, a allai fod yn her o ran dyrannu a storio'r bagiau tywod (a oedd yn ddarfodus). Roedd yn bwysig meithrin 'cydnerthedd cymunedol' ymhlith trigolion a chynghorau tref a chymuned, ar y cyd â Chyngor Bro Morgannwg a chyrrff eraill, megis CNC. Byddai'r Uned Amddiffyn Sifil a'r cyngor yn edrych ar awgrymiadau'r cynghorydd ynghylch defnydd Cyngor Bro Morgannwg o gerbyd trwm a dulliau eraill o gael bagiau tywod i gymunedau yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd.

Ynglŷn â chwestiwn y Cynghorydd Hanks ar y risg o eira pellach yn y Fro dros y 24 awr nesaf a'r mesurau sydd ar waith gan y cyngor i fynd i'r afael â hyn, esboniwyd nad oedd disgwyl rhagor o eira nac amodau rhewllyd ar hyn o bryd. Roedd y cyngor wedi mynd i'r afael â'r amodau eira presennol trwy roi haen o 'raen dwbl' ar y ffyrdd a rhoddwyd cefnogaeth i'r gwasanaethau cymdeithasol a gofal preswyl, gyda swyddogion perthnasol y cyngor hefyd 'ar alwad' dros nos / yn gynnwys yn y bore i gynnig cefnogaeth pe bai'r tywydd yn gwaethygu.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau fod y cyngor, trwy'r Uned Amddiffyn Sifil, y cyfarwyddiaethau ac ati, wrth law i gynorthwyo trigolion a chynghorau tref a chymuned gyda llifogydd, tywydd garw ac argyfyngau sifil eraill, ond roedd hefyd yn bwysig i ardaloedd lleol a thrigolion hefyd i fod yn barod cymaint â phosibl, yn enwedig yng ngoleuni newid yn yr hinsawdd, h.y. trwy brynu bagiau tywod silicon nad oeddent yn ddarfodus.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Amddiffyn Sifil hefyd fod cyngor ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg a fframwaith i helpu cymunedau i ddatblygu cynlluniau a gwydnwch yn ymwneud â llifogydd, tywydd poeth iawn, toriadau pŵer, ac ati.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyflwyniad, wedi hynny

**ARGYMHELLWYD – NODI'R cyflwyniad o ran y Diweddariad ar yr Uned Diogelu Sifil (UDS).**

## Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

811 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 IONAWR, 2023 (CAT) –

Diben yr adroddiad, fel yr amlinellwyd gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifyddiaeth i'r pwyllgor, oedd cynghori ar y cynnydd yn ymwneud â gwariant refeniw am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Ionawr 2023.

Roedd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2022/23 wedi bod yn heriol i'r cyngor, yn weithredol ac yn ariannol, oherwydd goblygiadau parhaus yr argyfwng costau byw, pwysau chwyddiant, ac effaith barhaus COVID-19. Roedd pwysau a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â'r setliad ar gyfer dyfarniad cyflog ychwanegol, chwyddiant cyffredinol, yn enwedig mewn meysydd fel cludiant ysgol, costau byw a phwysau staffio. O ran y dyfarniad cyflog, roedd hyn wedi'i wrthbwysu yn y rhan fwyaf o feysydd gan swyddi gwag.

Roedd ychydig o bwysau ariannol (a meysydd eraill i'w nodi) ar gyfer gwasanaethau o fewn cylch gwaith y pwyllgor, gan gynnwys pwysau ynghylch y cyllid ar gyfer tai sydd gan y cyngor, a oedd yn gysylltiedig â'r dyfarniad cyflog ychwanegol ac incwm rhent Tŷ Tregatwg, yn ogystal â phwysau ynghylch llety gwestai i gleientiaid digartref. Byddai dyfarniad cyflog heb ei gyllidebu o tua £43,000 yn cael ei wrthbwysu gan danwariant disgwylidig o fewn cyllidebau tai cronfeydd y cyngor. O ran tai sector cyhoeddus / y Cyfrif Refeniw Tai, roedd yr alldro a ddisgwylir ar darged gydag unrhyw danwariant/gorwariant yn y flwyddyn i'w wrthbwysu gan newidiadau i'r cyfraniadau i wariant cyfalaf, gan leihau'r symiau a dynnir i lawr o'r gronfa Cyfrif Refeniw Tai wrth gefn. Ar gyfer tai preifat, roedd hyn yn cynhyrchu llai o incwm na'r hyn a gyllidebwyd, yn rhannol oherwydd bod rhai o'r contractwyr yn gadael a hefyd trosiant staff yn ystod y flwyddyn, ond roedd y cyngor wedi cyflogi contractiwr newydd i helpu i glirio'r ôl-groniad o waith yn gyflymach. Roedd pwysau hefyd ynghylch y dyfarniad cyflog yn 2022/23 ar gyfer y maes gwasanaeth hwn. Roedd tanwariant yn y Gwasanaeth Troseddau leuenctid oherwydd swyddi staff gwag a hefyd rhywfaint o arian ychwanegol yn dod gan y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid yn ogystal â gorwariant bach ar y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, oherwydd gorwariant ym maes trwyddedu (a fyddai'n cael sylw trwy drosglwyddiad o gronfa wrth gefn y Gwasanaethau Rheoleiddio).

Cyfeiriwyd at ailddyrrannu cronfeydd wrth gefn, fel rhan o'r paratodau ar gyfer cyllideb refeniw 2023/24, yn ogystal â'r defnydd o reolaeth y trysorlys er mwyn defnyddio cronfeydd wrth gefn dros unrhyw fenthyciadau allanol dros dro, a'r defnydd o incwm buddsoddi i gynorthwyo'r gyllideb refeniw.

Ar ôl i'r swyddog gyflwyno'r adroddiad, codwyd y cwestiynau a sylwadau dilynol gan y pwyllgor.

O ran ymholiad yr is-gadeirydd ynglŷn â Thŷ Tregatwg, eglurwyd bod tîm cyllid y cyngor wedi cael trafodaethau am ddyfodol yr adeilad fel rhan o Grŵp Asedau'r cyngor. Roedd trafodaethau hefyd wedi'u cynnal gyda thîm rheoli'r prosiect. O ystyried y ffaith mai dim ond un tenant oedd yn yr adeilad nawr, roedd angen i'r cyngor lunio strategaeth ar gyfer y dyfodol. Eglurwyd bod Tŷ Tregatwg wedi ei adnabod yn wreiddiol fel adnodd cymunedol ac fel canolfan amlasiantaeth oedd yn cynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Oherwydd bod yr asiantaethau hyn wedi ad-drefnu'r ffordd yr oeddent yn darparu gwasanaethau, roeddent wedi tyngu'n ôl o'r adeilad gyda dim ond un gwasanaeth ar ôl yn yr adeilad bellach. Roedd hyn wedi arwain at faich cost i'r cyngor ac, oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r gwaith o adnewyddu'r adeilad yn flaenorol, pe bai'r cyngor yn cael gwared ar yr adeilad, yna roedd darpariaeth 'adfachu' ar waith a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ad-dalu elfennau'r grant gwreiddiol yn ôl i Lywodraeth Cymru. Roedd y cyngor wedyn yn edrych ar gynnal arfarniad o'r opsiynau a byddai penderfyniad yn cael ei wneud o ran p'un a oedd angen yr adeilad mwyach ac, os oedd hyn yn wir, beth yw'r dull gorau o ran aildefnyddio a/neu waredu'r adeilad wrth fynd ymlaen.

O ran ymholiad y Cynghorydd Perkes ynghylch effaith Jehu Construction yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ar raglen tai a chyllid y cyngor, esboniwyd nad oedd y cyngor wedi colli unrhyw arian fel y cyfryw, ond y byddai'n costio mwy i'r cyngor o bosibl i gwblhau datblygiadau tai o'r fath. Er enghraifft, o ran y datblygiad yn Hayes Road, roedd y cyngor bellach wedi cyflogi ymgynghoriaeth reoli i ymgymryd â'r gwaith o ddydd i ddydd o ran darparu'r adeiladau ar y safle, yn ogystal â diogelu'r buddsoddiad a oedd eisoes wedi'i wneud yno, h.y. diddosi tai lled-orffenedig ar y safle. Byddai gwaith hefyd yn cael ei wneud ar gynllun datblygu newydd a dyddiad cwblhau ar gyfer y safle. Roedd aildendro ar gyfer y contract hwn wedi arwain at ddefnyddio cryn dipyn o amser ac adnoddau gan y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu. Fodd bynnag, roedd y cyngor wedi parhau i ymgysylltu â'r is-gontractwyr a oedd eisoes yn gweithio mewn gwahanol safleoedd ac, ar ôl cael gwybod am Jehu yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, roedd y cyngor wedi sicrhau bod yr is-gontractwyr hynny, yr oedd llawer ohonynt yn byw'n lleol yn y Fro, yn cael eu cadw.

Ynglŷn ag ymholiad y Cynghorydd Campbell ar y sefyllfa bresennol ynghylch cleientiaid digartref yn aros mewn gwestai a llety gwely a brechwast a'r cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn, eglurwyd bod rhywfaint o arian ychwanegol wedi'i gyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn ogystal â dyraniad ychwanegol fel rhan o gyllideb refeniw 2023/24 oherwydd pwysau cost. Byddai hyn yn rhoi amser i'r cyngor ddod â rhywfaint o ddarpariaeth ychwanegol i mewn fel rhan o'r Strategaeth Ailgartrefu Cyflym sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Byddai'r cyllid o amgylch y maes hwn yn parhau i gael ei fonitro oherwydd yr angen i reoli'r cymhlethdodau a'r pwysau posibl sy'n gysylltiedig â hyn. Bu cyllid o tua £1.3 miliwn er mwyn darparu ystod o fesurau i ymateb i drefniadau trosiannol ac ataliol yn ymwneud â thai i bobl ddigartref. Roedd rhan o hyn i'w ddefnyddio ar gyfer darpariaeth gwestai a llety gwely a brechwast (yr oedd galw cymharol uchel ar ei chyfer o hyd), ond hefyd byddai elfennau o'r gronfa yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith ataliol megis cadw tenantiaethau presennol ac atal troi allan trwy gyfrannu rhywfaint o'r gost o gwmpas ôl-ddyledion rhent a hefyd edrych ar ehangu'r defnydd o daliadau tai dewisol. Byddai'r mesurau lliniaru hyn yn y pen draw yn helpu i leihau'r effaith ar gyllideb y cyngor yn ogystal â lliniaru'r costau ar y teuluoedd ac unigolion

hynny a gafodd eu hunain mewn sefyllfa mor ansicr. Her arall oedd gallu'r cyngor i symud pobl ymlaen o lety dros dro i dai mwy parhaol. Byddai'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym drafft yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion tymor hwy ynghylch digartrefedd ac yn enwedig yr amser yr oedd pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro ar hyn o bryd.

O ran ymholiad y Cynghorydd Hennessy am ddatblygiad safle Eagleswell, esboniwyd bod y cyngor ar fin ymrwmo i gontract i brynu unedau llety ar gyfer y safle a hefyd y byddai'r contractiwr yn gwneud gwaith rhagarweiniol ar y safle a chynnal yr arolygon perthnasol.

O ran ymholiad yr is-gadeirydd ynghylch penodi Swyddog Ailgartrefu Cyflym i'r cyngor, cadarnhawyd bod cydlynnydd wedi'i benodi fel rhan o'r cynigion ailgartrefu cyflym gan Lywodraeth Cymru.

O ran ymholiad y Cynghorydd Aviet ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan Pobl yn y Fro, esboniwyd bod Pobl yn cynnig gwasanaethau amrywiol ar gyfer materion yn ymwneud â chymorth tai ond nad oedd wedi'i gomisiynu i ddarparu llety'n uniongyrchol; byddai ceisiadau o'r fath yn cael eu cyfeirio'n ôl yn awtomatig at y cyngor i ddarparu'r cymorth angenrheidiol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'R sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) NODI'R trefniadau i wrthbwysu'r gorwario rhagamcanol yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

#### Rheswm dros yr argymhellion

- (1-2) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

812 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 IONAWR 2023 (CAT) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gweithredol, yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Ionawr 2023.

Roedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau parhaus oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu bod angen ail-wneud cynlluniau neu ail-dendro ar eu cyfer, a fyddai'n arwain at oedi i brosiectau. Roedd swyddogion prosiect hefyd yn nodi bod amseroedd arwain hir wrth gaffael deunyddiau a bod prinder sgiliau / staff â sgiliau mewn rhai meysydd.

O berthnasedd arbennig i'r pwyllgor oedd ailbroffilio'r Rhaglen Gwella Tai yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 a 2023/24 oherwydd yr heriau y cyfeiriwyd atynt uchod, gyda llithriant o £3.272 miliwn a chyllideb ddiwygiedig o ychydig dros £21 miliwn.

Parhaodd y cyngor i weithio'n galed i nodi cyfleoedd i gyflymu gwariant yn erbyn y Rhaglen Gwella Tai a byddai hyn hefyd yn cael ei adolygu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'R cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- (2) NODI'R defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) NODI'R defnydd o Bwerau Brys o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad 1 sydd ynghlwm â'r adroddiad.
- (4) NODI'R newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

813 GWEITHGAREDDAU LEFEL GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/2024 (CAT) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu, yn nodi'r gweithgareddau gwasanaeth cynlluniedig (fel yr amlinellwyd yn y cynlluniau gwasanaeth) a thargedau perfformiad cysylltiedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu. Mae'r rhain yn nodi'r meysydd ffocws penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor ar gyfer 2023/2024 fel y'i haliniwyd â phedwar amcan llesiant y cynllun corfforaethol.

Yn unol â dyletswyddau statudol y cyngor, adolygodd berthnasedd ei amcanion llesiant yn barhaus a chadarnhawyd y broses hon eu bod yn dal i fod yn berthnasol i gyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion Bro Morgannwg ac yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.

Adlewyrchwyd yr ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol terfynol a gymeradwywyd ar gyfer 2023/24 mewn 15 cynllun gwasanaeth, a ddarparwyd er gwybodaeth yn y papurau cefndir i'r adroddiad.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Craffu adolygu'r cyfraniadau gan wasanaethau (trwy weithgareddau arfaethedig a mesurau perfformiad arfaethedig a thargedau cysylltiedig), fel sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor, a fyddai'n cefnogi cyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor ar gyfer y cyfnod 2023/24 a nodwyd yn Atodiad A a B i'r adroddiad.

Hysbyswyd aelodau'r pwyllgor fod blaenoriaethau'r cynllun gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir eto i'w cytuno o ganlyniad i'r prosesau a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer hyn ond byddent yn cael eu rhannu gyda'r pwyllgor maes o law.

Ar ôl i'r swyddog gyflwyno'r adroddiad, codwyd y cwestiynau a sylwadau dilynol gan y pwyllgor.

Ynghylch ymholiad y Cynghorydd Buckley ar y ffaith nad oedd unrhyw gamau gweithredu yn erbyn rhai o fesurau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol / cynllun gwasanaeth, esboniwyd nad oedd y camau gweithredu yn dod o dan nod cyffredinol y pennawd perthnasol yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol / cynllun gwasanaeth, nac yn dod o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor hwn.

O ran ymholiad yr is-gadeirydd ynghylch y mesurau ymddygiad gwrthgymdeithasol a amlinellwyd fel rhan o'r cynllun gwasanaeth a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y cyngor a phartneriaid i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mro Morgannwg (fel yn y Barri), amlinellwyd y gwahanol fesurau ar y cyd, h.y. defnyddio'r rhwydwaith teledu cylch cyfyng wedi'i uwchraddio i helpu i nodi pobl sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (i'w rannu, gyda gwybodaeth allweddol arall, ag amrywiol bartneriaid, megis yr heddlu a Phartneriaeth Bro Ddiogelach, yn ogystal ag yn fewnol, h.y. y Tîm Arwain Strategol). Oherwydd oedran ifanc rhai o'r bobl a oedd yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, roedd y cyngor a phartneriaid hefyd yn gweithio gydag ysgolion lleol i fynd i'r afael â'r ymddygiad hwn ac unrhyw faterion diogelu posibl i'r bobl ifanc hynny, yn ogystal â chymryd rhan mewn mwy o achosion ac ymgysylltu â'r ardaloedd lleol hynny y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt.

O ran ymholiad dilynol y cadeirydd ar ymgysylltu â masnachwyr ar Heol Holton yn dilyn cyfres o ymddygiad gwrthgymdeithasol a digwyddiadau cysylltiedig, megis fandaliaeth, yn y lleoliad yn ddiweddar, dywedodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu y byddai'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi ymgysylltu â siopau a busnesau lleol yn yr ardal, ac roedd yr heddlu eisoes wedi siarad â siopau lleol o amgylch tystiolaeth teledu cylch cyfyng ayyb. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol – Adfywio mai'r prif gyswllt rhwng y Tîm Diogelwch Cymunedol a busnesau lleol oedd trwy Swyddog Datblygu Canol y Dref. Roedd nifer o syniadau a phrosiectau wedi'u trafod gyda masnachwyr, megis y defnydd o systemau radio. Oherwydd y gost o weithredu'r mesurau hyn, roedd y posibilrwydd o gyllid allanol yn cael ei ystyried. Roedd y Rheolwr Gweithredol hefyd yn awyddus i weld perthynas fwy uniongyrchol yn datblygu rhwng y Tîm Diogelwch Cymunedol a grwpiau masnachwyr.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor Craffu

**ARGYMHELLWYD –**

(1) BOD y gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2023/24, fel y'u ceir yn y Cynlluniau Gwasanaeth ac fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad A), yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.



(2) BOD y mesurau arfaethedig a'r targedau perfformiad gwasanaethau ar gyfer 2023/2024, yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad B), yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

### Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

814 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL:  
PERFFORMIAD CHWARTER 3 2022/23 A CHYNNYDD YN ERBYN  
ARGYMHELLION RHEOLEIDDIOL ALLANOL A CHYNYGION AR GYFER GWELLA  
(CAT) –

Roedd yr adroddiad perfformiad, a gyflwynwyd gan y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu, yn nodi, er ystyriaeth yr aelodau, gynnydd y cyngor yn Chwarter 3 (Ch3) (1 Ebrill tan 31 Rhagfyr 2022) tuag at gyflawni ymrwymadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) yn unol ag amcanion llesiant ei gynllun corfforaethol. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd:

- Rhoddwyd statws perfformiad gwyrdd i bob un o bedwar amcan llesiant y cynllun corfforaethol yn Ch3 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran bodloni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor ar gyfer 2022/23.
- Rhoddwyd perfformiad gwyrdd i 93% (353/380) o'r gweithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor, gan adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter; rhoddwyd statws oren i 1% (3) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a statws coch i 6% (24) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd.
- Mewn perthynas â'r gweithgareddau arfaethedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, dyfarnwyd statws perfformiad gwyrdd i 93% (51 allan o 55) a rhoddwyd statws coch i 7% (4). O'r naw mesur a adroddwyd, cafodd 56% (5) statws perfformiad gwyrdd a chafodd 44% (4) statws coch.
- Er hwylustod, roedd eithriadau perfformiad sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu bellach yn amlygu statws presennol y camau perfformiad coch a nodwyd yn y chwarter blaenorol i ddangos cyfeiriad, sef a oedd camau adfer arfaethedig wedi'u cymryd i symud y camau hyn yn eu blaenau. Un maes allweddol a oedd wedi gweld gwelliant yn yr adran hon, fodd bynnag, oedd canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref, a oedd wedi cynyddu i 70%.
- O ran traciwr mewnwelediad y Bwrdd Mewnwelediad Strategol, yn ymwneud ag argymhellion rheoleiddio allanol presennol a chynigion ar gyfer gwella, roedd nifer o gamau gweithredu lleol a chenedlaethol wedi'u cwblhau mewn perthynas â chylch gwaith y pwyllgor: Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw: Digartrefedd (1 cam), Adolygu Digartrefedd: Drws Agored i Newid Cadarnhaol (11 cam) a Cyflawni â Llai: Adolygiad Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd (9 cam).

Ar ôl i'r swyddog gyflwyno'r adroddiad, codwyd y cwestiynau a sylwadau dilynol gan y pwyllgor.

Mewn perthynas ag ymholiad y Cynghorydd Perkes ar ddatblygiad tai dros dro Court Road, esboniwyd bod nifer o bobl wedi symud ymlaen o'r llety hwn i fathau mwy parhaol o dai, er nad oedd cymaint ag y gobeithiwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, roedd nifer o ddatblygiadau tai un person ar fin mynd rhagddynt yn y dyfodol agos a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â hyn. Bu datblygiad Court Road yn llwyddiannus ac roedd yn cael ei reoli a'i gynnal a'i gadw'n dda gan drigolion. Ategwyd hyn hefyd gan y cadeirydd, a oedd wedi derbyn adborth cadarnhaol gan un o'r trigolion presennol sy'n byw yn Court Road.

O ran ymholiad y Cynghorydd Hennessy ynghylch yr Adolygiad Trwyddedu Carafanau, y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad am eithriadau, byddai hwn yn cael ei gyfeirio'n ôl at gydweithwyr yn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir. O ran ei ymholiad dilynol ynghylch datblygiad tai Clinig Colcot, cadarnhawyd bod y gwaith o ddymchwel a chlirio'r safle wedi'i wneud, gyda'r gwaith adeiladu/datblygu'r safle ar fin digwydd, a'i fod bellach yn nwylo'r contractwyr i'w weithredu. Byddai unrhyw ddiweddariadau ar y datblygiad hwn yn y dyfodol yn cael eu rhannu gyda'r pwyllgor.

Gwnaeth yr is-gadeirydd sylwadau ar CPM/092: Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd i osod eiddo gwag a'r amser hwy a gymerir i drefnu ymweliadau ac arwyddion ar gyfer llety pobl hŷn, ac a oedd hyn yn rhywbeth y gallai hi helpu ag ef fel Hwrwyddwr Pobl Hŷn y Fro. Eglurwyd bod yr amserlen hirach yn ymwneud â'r broses o unedau gwag ei hun, h.y. yr angen i ddarparu addasiadau a newidiadau eraill i'r eiddo a all fod angen amser. Dylid nodi, fodd bynnag, mai dim ond 20 diwrnod gwaith o hyd oedd yr amseroedd gweithredu rhwng rhywun yn derbyn eiddo'r cyngor hyd at symud i mewn, a oedd yn welliant sylweddol i'r amserlenni a welwyd ychydig flynyddoedd yn ôl.

Dywedodd y Cynghorydd Buckley fod defnyddio graddfeydd Coch Oren Gwyrdd ac ati wedi helpu i wneud adroddiad monitro'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn llawer mwy hygyrch a dealladwy i gynghorwyr ac roedd am ddiolch i'r swyddogion a fu'n ymwneud â'i ddrafftio.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor Craffu

**ARGYMHELLWYD –**

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) BOD y cynnydd a wnaed hyd yma wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion gwella a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor yn cael eu cymeradwyo, ac argymhellir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet bod y

camau gorffenedig canlynol gan y Traciwr Insight, fel sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, yn cael eu dileu:

- Cyflawni gyda Llai: Adolygiad Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd (9 gweithred).
- Sut mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw: Digartrefedd (1 weithred) ac Adolygu Digartrefedd: Drws Agored i Newid Cadarnhaol (11 gweithred).

#### Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei argymhellion rheoleiddio a'i gynigion gwella ac yn ymateb yn briodol i'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd drwy raglen Archwilio Cymru o Astudiaethau Llywodraeth Leol yn lleol a cenedlaethol.